Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 18 Ionawr 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | P Downing |
| M H Jones | W Evans | M B Lewis |
| R D Lewis | P B Smith | D W W Thomas |
| T M White | L J Tyler-Lloyd | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Andrew Ferguson | Arweinydd Tîm Ardal |
| Liam Jones | Arweinydd Tîm Ardal |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

---

## 54 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd M H Jones - Cais Cynllunio 2021/2996/FUL (Eitem 4) – Personol a rhagfarnol, a gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth.

## 55 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Dim

## 56 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#) (Sylwer: Dosbarthwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor y diwrnod cyn y cyfarfod)

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod:

**(Eitem 1) - Cais Cynllunio 2021/1790/FUL - Adeiladu 3 annedd ar wahân a gwaith mynediad cysylltiedig ar dir y tu ôl i 68-94 Lone Road, a'r tu ôl i 3-21 Waungron Road, Clydach, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Mae 1 llythyr ychwanegol wedi'i gyflwyno'n ail-ddweud pryderon ynghylch diogelwch ffyrdd o ystyried y tir sy'n disgyn yn sylweddol i lawr i'r afon ger y fynedfa/lledu'r safle.

**(Eitem 2) Cais Cynllunio 2021/2001/FUL - Newid defnydd o hen feithrinfa gofal dydd i blant (D1) i annedd breswyl (C3) ynghyd ag estyniadau blaen/ochr deulawr, estyniad ochr unllawr, gosod grisiau troellog yn lle'r allanfa dân gefn, creu dau ddrws mynediad newydd gyda grisiau a chynteddau (gweddluniau blaen a'r ochr dde), gosod llwybr dihangfa dân yn lle'r balconi uwchben to gwastad y llawr cyntaf yn y cefn a gwneud newidiadau cysylltiedig i ffenestri a tho'r hen Feithrinfa Ddydd *Tree Tops*, Comin Clun, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

**(Eitem 3) - Cais Cynllunio 2021/2770/FUL - Addasu'r adeilad presennol a'i adnewyddu'n allanol (gan gynnwys llenfuriau gwydrog), a chodi estyniad deulawr ar yr 2il a'r 3ydd llawr, gan greu 4 uned fanwerthu/masnachol ar y llawr gwaelod (Dosbarth A1/A3) gyda 3 llawr o swyddfeydd uwchben (Dosbarth B1) gan gynnwys teras ar y to, 3 phod cyfarfod ar y to ac isadeiledd gwyrdd yn 18-20 Princess Way, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Derbyniwyd 1 llythyr cefnogi. Bydd yr adeilad diolwg sydd wedi'i esgeuluso'n cael ei wella a'i adnewyddu. Bydd yn dod â busnes y mae mawr ei angen i'r ffordd a gobeithio y bydd yn arwain at adfywiad Princess House, sydd wedi'i esgeuluso'n fawr.

**(Eitem 4) - Cais Cynllunio 2021/2996/FUL – Addasu'r llawr gwaelod, y llawr cyntaf a'r ail lawr (Dosbarth A1/A3) i greu Hwb Cymunedol gan ddarparu llyfrgell, archifau, caffi, gwasanaethau cymunedol, swyddfa staff a lle cydweithio hyblyg (Defnydd Unigryw) gyda addasiadau allanol yn cynnwys llenfuriau gwydrog/sgrîn law, isadeiledd gwyrdd a phaneli solar ar y to yn 277-278 Stryd Rhydychen, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.19 pm

**Cadeirydd**